

## ADFENT 2016

*'Cysurwch, cysurwch fy mhobl – dyna a ddywed eich Duw.*

*Siaradwch yn dyner wrth Jerwsalem, a dywedwch wrthi ei bod wedi cwblhau ei thymor gwasanaeth a bod ei chosb wedi ei thalu, ei bod wedi derbyn yn ddwbl oddi ar law'r ARGWLWYDD am ei holl bechodau.'*

Yn ystod pedair wythnos yr Adfent eleni bydd ein myfyrdodau'n troi o gwmpas yr adnodau sy'n ymddangos yn Eiseia 40:1-9.

Ynddynt canfyddwn themâu canolog y ffydd Gristnogol – dioddefaint ac aberth a chymod, ffyddlondeb Duw a chyflawniad ei addewidion.

Y ddwy adnod gyntaf (sydd ar ben y ddalen hon) fydd yn mynd a'n sylw yr wythnos hon.

Llefarwyd y geiriau hyn gyntaf ar adeg pan roedd pobl Dduw yn amau, efallai, bod Duw eu tadau wedi cefnu arnynt; efallai eu bod yn eu hamheuon yn gofyn, "Tybed a yw'r Arglwydd yn parhau i fod yn ffyddlon iddynt o gwbl?"

Roedd yr addewidion cyfamodol 'byddaf yn Dduw i chwi, a byddwch chwithau'n bobl i mi...' yn ymddangos fel atgof pell. Onid oedd y gaethglud wedi dwyn oddi wrthynt lawer o'r pethau yr oeddynt yn arfer a bod yn sicr iawn ohonynt. Nid oeddynt mwyach yn byw yng ngwlad yr addewid. Cenedl fechan, ddinod oeddynt ac roedd y Deml a muriau Jerwsalem wedi eu chwalu'n adfeilon. Ac eto, ym Babilon, roeddynt yn ymddangos fel pe baent fel alltudion yn gymuned llewyrchus.

Ym mhle oedd Duw yng nghanol hyn oll?

Prin y medrwn ddychmygu dan yr amgylchiadau yr oedd y bobl yn byw ynddynt, effaith y geiriau 'Cysurwch, Cysurwch fy mhobl...medd eich Duw.' Maent nid yn unig yn adfer yr addewid eu bod yn parhau i fod yn bobl Dduw, ond mae'r sicrwydd bod eu pechodau wedi ei maddau yn eu hatgoffa y cawsant faddeuant am mai natur Duw yw maddau.

Bydd llawer yn ystod tymor yr Adfent hwn, yng nghanol byd sy'n llawn o ryfel, y sôn am ffoaduriaid yn eu miloedd sy'n chwilio am loches, ynghyd â'r ansicrwydd am y

dyfodol yn cwestiynu bwriadau Duw tuag atom.

Mae geiriau Eiseia'n parhau i atseinio'i neges o obaith lawn cymaint heddiw ag y gwnaeth ganrifoedd yn ôl. Mae ffyddlondeb Duw, er fod ein hamgylchiadau'n ddyrys, yn neges sydd angen ei chyhoeddi heddiw fel ag a glywyd ar hyd ein hanes.



Glynis Owen,  
Llywydd y Gymdeithasfa yn y De

Mae cysur a maddeuant yn parhau i fod yn ganolog i neges yr Eglwys i'r byd. Atgoffodd un o'n gweinidogion, sydd wedi ymdeol bellach, o ddarlith ar bregethu y gwrandawodd arni pan yr oedd yn fyfyrwr. Fe'i cynghorwyd bryd hynny i bregethu 'Cysur.' Meddyliodd iddo'i hun, 'Cysur? Cysur? Na, dy'n ni'n mynd i newid y byd!'

Ond bellach, wedi hanner can mlynedd yn y weinidogaeth newidiodd ei feddwl a daeth i'r casgliad bod y darlithydd yn gywir!

Mae'r Apostol Paul yntau, ar ddechrau 2 Corinthiaid yn pwysleisio pwysigrwydd 'cysur' wrth gyfarch cynulleidfia ranedig Corinth. Dywedodd,

***Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, y Tad sy'n trugarhau a'r Duw sy'n rhoi pob diddanwch. Y mae'n ein diddanu ym mhob gorthrymder, er mwyn i ninnau, trwy'r diddanwch a gawn ganddo ef, allu diddanu'r rhai sydd dan bob math o orthrymder.***

Y mae ei neges am dioddefaint a chael ein huniaethu gyda dioddefaint y byd yn ein cyfeirio yn ôl at 'Was Dioddefus' Eiseia ac at galon Efengyl Iesu Grist.

Wrth ddychwelyd at ddwy adnod gyntaf Eiseia 40 gwelwn pa mor berthnasol ydynt i dymor yr Adfent hwn. Cyflawnwyd addewidion Duw i'w bobl yn amser Duw. Hyd yn oed wedi iddynt ddychwelyd i Jerwsalem ni fyddai'r cyfan yn cael ei gwblhau ar unwaith. Byddai angen amser i adeiladu muriau'r ddinas a'r Deml hithau. Ni ddeuai diddanwch llawn hyd ddyfodiad yr Ymgawdoliad. Roedd angen arnynt i ddisgwyl mewn gobaith. Nid yw 'aros' a disgwyl yn agweddau poblogaidd. Yn wir, mae amynedd yn beth prin. Dymunwn ymateb heb oedi i'n ymholiadau.

Ond fel Eglwys Iesu Grist, credwn bod amserlen Duw yn wahanol i'n mesur ninnau o amser a'i fod yn aros yn ffyddlon i'w addewidion.

Mae tymor yr Adfent yn gyfle i bwylo a chofio a myfyrio a disgwyl wrth i ni baratoi ein calonnau o'r newydd i deithio tua Bethlem dre i dderbyn y baban Iesu, Gwardwr y byd ac wrth i ni ddisgwyl mewn gobaith am gyflawniad terfynol bwriadau Duw i'r ddynoliaeth.

Bydded i fendithion yr Adfent eich amgylchynu.

Glynis Owen,  
Llywydd y Gymdeithasfa yn y Dwyrain